

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Safonau
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	6 Ebrill 2023
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
<b>Teitl</b>	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau i alluogi'r Pwyllgor llawn gael golwg a chyfrannu at Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, cyn i'r eitem gael ei chyflwyno i'r cyngor llawn. Mae'r adroddiad drafft ynghlwm yn Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd gan Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor bob blwyddyn fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1 Nodi cynnwys yr adroddiad.
- 3.2 Darparu sylwadau i'r Swyddog Monitro ar gynnwys yr adroddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu barn y Pwyllgor hwn yn gywir.
- 3.3 Argymhell y dylai'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn.

#### **4. Manylion yr adroddiad**

Mae'r adroddiad drafft ynghlwm yn Atodiad 1 i'w ystyried.

#### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau democrataidd.

#### **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn ac nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y gwasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

#### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

#### **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi eu hystyried yn ofynnol; mae'r adroddiad hwn mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau a'u bod yn fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor a'r Cadeirydd o ran cadw at God Ymddygiad Aelodau yn y Sir a sylwadau o ran uniondeb a moeseg yn gyffredinol.

#### **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

#### **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risg wedi'i nodi.

#### **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006.